# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei gweithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2015**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Mary Jones | Adran Etholiadol: | Gogledd Cilâ |

| | |
|---|---|
| **Swydd Cyflog Uwch:** | Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu<br>Dechreuodd 22/12/14 |

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Rwyf wedi helpu llawer o etholwyr gydag amrywiaeth eang o broblemau, o dipio anghyfreithlon a draeniau wedi'u rhwystro i goed wedi cwympo.

Cynhaliais gymorthfeydd lle bo angen ac roedd modd i breswylwyr gysylltu â mi bob amser i drafod eu pryderon.

**Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd cyrff dethol y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Dangosir uchod y % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

| | | |
|---|---|---|
| Pwyllgor Penodiadau | 0 / 3 | 0% |
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 6 / 8 | 75% |
| Gweithgor y Cyfansoddiad | 1 / 2 | 50% |
| Y Cyngor | 15 / 17 | 88% |
| Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd | 3 / 3 | 100% |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 6 / 7 | 86% |
| Cyd-bwyllgor Ymgynghorol | 5 / 7 | 71% |
| Pwyllgor Cynllunio | 5 / 6 | 71% |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 5 / 5 | 100% |
| Fforwm Cyswllt â Myfyrwyr Abertawe | 0 / 3 | 0% |
| **YN GYFFREDINOL** | **46 / 61** | **75%** |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfarfodydd Craffu | | |
| Panel Perfformiad Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol | 5 / 6 | 83% |
| Panel Ymchwilio Craffu Cynnwys y Cyhoedd | 0 / 1 | 0% |
| Panel Ymchwilio Craffu Cludiant Cyhoeddus | 1 / 1 | 100% |
| Panel Ymchwilio Craffu Strydlun | 2 / 3 | 67% |
| Gweithgor Craffu ar Gynaladwyedd | 0 / 1 | 0% |
| **YN GYFFREDINOL** | **8 / 12** | **67%** |

Roeddwn ac rwyf yn aelod o Bwyllgor y Rhaglen Graffu ond nid oeddwn/nid wyf yn gallu mynychu cyfarfodydd arbennig i graffu ar y safleoedd Sipsiwn/Teithwyr. Mae hyn oherwydd bod gen i ddiddordeb i'w ddatgan gan yr oeddwn yn rhan o'r broses benderfynu o'r blaen sy'n atal fy nghyfranogiad.

# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Cadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Hendrefoelan.

Llywodraethwr yn Ysgol yr Olchfa a Chadeirydd Pwyllgor y Cwricwlwm ac Asesu.

Aelod o Gyngor Cymuned Cilâ tan 29/5/15.

Aelod o Gyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol Bae Abertawe ond ymddeolais yn gynharach eleni.

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwyf wedi hysbysu preswylwyr am yr holl ddatblygiadau diweddaraf trwy gynnal cyfarfodydd i drafod cais cynllunio ar gyfer datblygiad tai mawr yn fy ward. Rwyf wedi gwneud hyn trwy gynnal cyfarfodydd a rhoi adroddiadau diweddaru ar fy nhudalen cynghorydd ar Facebook ac mewn cylchlythyrau.

Rwyf wedi cynnig fy nghefnogaeth i Gyfeillion Parc Dyfnant ac wedi mynychu eu cyfarfodydd i'w helpu i fwrw ymlaen â'r prosiect i wella'r parc.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Es i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

29/01/2015 - Gwneud Craffu'n Fwy Effeithiol
25/11/2014 - Gwneud y Defnydd Gorau o Wybodaeth Perfformiad

Es i hefyd i hyfforddiant amddiffyn plant i lywodraethwyr a gynhaliwyd yn Ysgol yr Olchfa ar 26/11/2014

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Roeddwn yn rhoi adroddiadau diweddaru i breswylwyr am y Cynllun Datblygu Lleol a'r effaith ar ein hardal.

Es i wrandawiad trwyddedu gyda phreswylwyr lleol i ymgyrchu'n erbyn estyn oriau i drwydded alcohol yng ngarej Murco.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol - £13,300 hyd at 22/12/2014
Cyflog Uwch - £22,000 o 22/12/2014

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 13.07.15 |